

**Adroddiad ar**

**Bryn Tirion Hall School**

**Ffordd Y Bers**

**Y Bers**

**Wreccsam**

**LL14 4HS**

**Dyddiad yr arolygiad: Mehefin 2026**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant**

**yng Nghymru**

## Ynglŷn â Bryn Tirion Hall School

|                                                        |                         |
|--------------------------------------------------------|-------------------------|
| Enw'r darparwr                                         | Bryn Tirion Hall School |
| Statws y perchennog                                    | Bersham Schools Limited |
| Iaith y darparwr                                       | Saesneg                 |
| Math o ysgol                                           | Arbennig annibynnol     |
| Darpariaeth breswyl?                                   | Nac oes                 |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr                       | 100                     |
| Disgyblion o oed ysgol statudol                        | 100                     |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn (os yw'n berthnasol) |                         |
| Dyddiad dechrau'r arolygiad                            | 01/06/2026              |

### Cyd-destun yr ysgol:

Mae Bryn Tirion Hall School wedi ei lleoli ar gyrion Wrecsam. Mae'n Ysgol Annibynnol ar gyfer hyd at 100 o ddisgyblion rhwng 7 ac 18 oed. Perchnogir yr ysgol gan Bersham Schools Ltd. Mae gan y disgyblion sy'n mynychu ystod o anghenion dysgu ychwanegol yn cynnwys anghenion cymdeithasol ac emosiynol, ac awtistiaeth. Mae 100 o ddisgyblion ar y gofrestr ar hyn o bryd. Mae disgyblion yn amrywio o 7 i 16 oed. Mae gan bob un o'r disgyblion gynllun datblygu unigol neu gynllun addysg, iechyd a gofal. Mae gan leiafrif o ddisgyblion statws plant sy'n derbyn gofal. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion wedi eu lleoli gan awdurdodau lleol yng Nghymru. Mae ychydig o ddisgyblion wedi eu lleoli gan awdurdodau lleol yn Lloegr.

Mae'r pennaeth wedi bod yn ei swydd er mis Medi 2024.

Cynhaliwyd ymweliad monitro blynyddol diwethaf yr ysgol ym mis Ebrill 2024. Adeg yr ymweliad, roedd yr ysgol yn cydymffurfio'n llawn â Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2024.

## Crynodeb

Mae Bryn Tirion Hall School yn darparu cyfleusterau o ansawdd uchel ac amgylchedd dysgu therapiwtig cefnogol sy'n helpu llawer o ddisgyblion i ailymgysylltu'n llwyddiannus ag addysg. Mae bron pob un o'r staff yn adnabod disgyblion yn eithriadol o dda ac yn datblygu perthnasoedd cadarnhaol ac ymddiriedus sy'n eu helpu i deimlo'n ddiogel, eu bod yn cael eu gwerthfawrogi, ac yn barod i ddysgu. Ymgorfforir dulliau'r ysgol sy'n ystyriol o drawma ac sy'n ymwybodol o awtistiaeth ar draws pob agwedd ar fywyd yr ysgol, ac maent yn cyfrannu'n gryf at les ac ymgysylltiad emosiynol disgyblion. Er bod llawer o ddisgyblion yn gwella'u presenoldeb dros gyfnod, mae presenoldeb cyffredinol yn parhau'n rhy isel.

Mae'r ysgol yn darparu cwricwlwm eang a hyblyg sy'n gweddu'n dda i anghenion, diddordebau a dyheadau unigol disgyblion. Mae profiadau dysgu yn ddifyr a pherthnasol, ac yn cynnwys pwyslais cryf ar ddysgu yn yr awyr agored, menter a defnyddio technoleg ddigidol. Mae bron pob un o'r disgyblion yn cael cyfleoedd i deithio dramor ar drip sgïo a chymryd rhan mewn gwर्सylloedd dosbarth. Mae'r profiadau hyn yn cynorthwyo disgyblion i ddatblygu eu medrau cymdeithasol ac annibyniaeth yn llwyddiannus.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cryf o'u mannau cychwyn unigol. Maent yn datblygu eu medrau llythrennedd, rhifedd a'u medrau ehangach yn dda ac yn dod yn ddysgwyr cynyddol hyderus ac annibynnol. Fodd bynnag, nid yw ansawdd yr addysgu yn gyson ar draws yr ysgol, ac nid yw targedau dysgu bob amser yn helpu disgyblion i ddeall yn glir beth mae angen iddynt ei wneud nesaf yn eu dysgu.

Mae darpariaeth therapiwtig yr ysgol yn gryfder arbennig. Mae staff yn cymhwyso dulliau cyson i gefnogi anghenion emosiynol, cyfathrebu a synhwyraidd disgyblion ac yn defnyddio'r ddealltwriaeth hon yn effeithiol i hyrwyddo cyfranogiad mewn dysgu.

Mae bron pob un o'r disgyblion yn cyfrannu'n ystyrlon at wneud penderfyniadau trwy adolygiadau, gweithgareddau'r Cyngor Ysgol a rolau arwain. Maent yn teimlo bod yr ysgol yn gwrando arnynt, ac yn gwerthfawrogi ac yn deall sut mae eu barn yn dylanwadu ar fywyd yr ysgol.

Mae perchnogion ac arweinwyr yn darparu cymorth a her effeithiol, ac wedi sefydlu diwylliant cryf o fyfyrion a gwelliant parhaus. Mae hunanwerthuso, cynllunio gwelliant ysgol a dysgu proffesiynol yn cyd-fynd â'i gilydd yn agos, ac yn cyfrannu'n gadarnhaol at brofiadau a deilliannau disgyblion.

## Prif werthusiad

Mae Bryn Tirion Hall School yn darparu amgylchedd dysgu therapiwtig hynod gefnogol ac sy'n cael ei yrru gan werthoedd sy'n galluogi llawer o ddisgyblion i ailymgysylltu'n llwyddiannus ag addysg a gwneud cynnydd cryf yn eu lles, eu datblygiad personol a'u dysgu.

### Profiadau dysgu a'r cwricwlwm

Mae'r ysgol yn darparu cwricwlwm eang a hyblyg sy'n cefnogi dilyniant yng ngwybodaeth, medrau a dealltwriaeth disgyblion, gan barhau i fod yn ymatebol i anghenion unigol a chyd-destunau bywyd go iawn. Caiff profiadau dysgu eu hadolygu a'u diweddarau'n rheolaidd i adlewyrchu materion presennol sy'n effeithio ar fywydau disgyblion, yn cynnwys diogelwch ar-lein, perthnasoedd a materion cymdeithasol ehangach.

Mae disgyblion yn elwa ar ystod eang o brofiadau dysgu difyr mewn cyd-destunau ystyrllon. Mae llawer ohonynt yn datblygu medrau cyfathrebu, cyflogadwyedd ac annibyniaeth trwy weithgareddau menter. Er enghraifft, mae disgyblion iau yn dysgu am reoli stoc, archebu cyflenwadau, gweini cwsmeriaid a thrin trafodiadau trwy gaffi dosbarth Gwyn. Mewn gwersi technoleg, mae disgyblion yn defnyddio meddalwedd dylunio wedi'i chynorthwyo gan gyfrifiadur i greu, profi a mireinio cynhyrchion cyn eu cynhyrchu gan ddefnyddio argraffyddion 3D. Er enghraifft, maent yn creu stampiau bara, standiau gliniadur a throellwyr ffidlan, gan addasu eu dyluniadau yn dilyn profi a gwerthuso. Mae disgyblion hefyd yn elwa ar brofiadau gwyddoniaeth ymarferol sy'n datblygu eu medrau ymholi ac yn dyfnhau eu dealltwriaeth o gysyniadau gwyddonol.

Mae'r ysgol yn gwneud defnydd hynod effeithiol o dechnoleg i gefnogi dysgu. Mae platfform dysgu ar-lein yn ehangu dealltwriaeth disgyblion o offer digidol ac yn galluogi adborth amser real yn ystod gwersi. Mae llawer o ddisgyblion hefyd yn datblygu eu medrau cyfathrebu digidol a datrys problemau trwy weithgareddau sy'n cynnwys deallusrwydd artiffisial, mireinio sbardunau ac addasu iaith i gyflawni deilliannau llwyddiannus.

Mae trefniadau'r ysgol yn darparu gwybodaeth werthfawr am ddysgu a datblygiad disgyblion, ac mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymwybodol o'u nodau dysgu. Fodd bynnag, nid yw targedau personoledig bob amser yn ddigon manwl gywir i helpu disgyblion i ddeall beth sydd angen iddynt ei wneud nesaf i'w cyflawni.

Un o gryfderau arbennig y cwricwlwm yw rhaglen dysgu yn yr awyr agored eang lle mae bron pob un o'r disgyblion yn cymryd rhan mewn ystod o brofiadau sy'n datblygu hyder, gwydnwch, gwaith tîm ac annibyniaeth. Mae gweithgareddau'n cynnwys byw yn y gwyllt, dringo, mordwyo, gwobrau chwaraeon padlo, caiacio ar draws Traphont Ddŵr

Pontcysyllte a phrofiadau preswyl yn Eryri. Mae pob dosbarth yn cael trip gwersylla preswyl blynyddol, lle mae disgyblion yn datblygu eu medrau awyr agored a chymdeithasol ymhellach. Yn ychwanegol, mae rhaglen sgïo flynyddol hirsefydledig yr ysgol i Ffrainc yn rhoi cyfle i'r rhan fwyaf o ddisgyblion deithio dramor, yn aml am y tro cyntaf, gan ehangu eu gorwelion a gwella'u hyder a'u hannibyniaeth ymhellach.

### **Addysgu a chymorth ar gyfer dysgu**

Ar draws yr ysgol, mae bron pob un o'r staff yn datblygu perthnasoedd hynod gadarnhaol ac ymddiriedus â disgyblion. Maent yn adnabod disgyblion yn eithriadol o dda ac mae ganddynt ddealltwriaeth gadarn o'u hanghenion dysgu, cyfathrebu, cymdeithasol ac emosiynol unigol. Mae prosesau derbyn cadarn ochr yn ochr â chydweithio agos rhwng staff addysg a therapiwtig yn sicrhau bod cryfderau pob disgybl a'u rhwystrau rhag dysgu yn cael eu deall yn llawn cyn iddynt ddechrau yn yr ysgol. Mae hyn yn helpu sicrhau bod cymorth i ddisgyblion unigol yn deilwredig, yn ddibynadwy ac yn ymatebol.

Mae bron pob un o'r staff yn creu amgylcheddau dysgu tawel a chefnogol lle mae disgyblion yn teimlo'n ddiogel, yn ymgysylltu'n gadarnhaol â dysgu ac yn datblygu hyder cynyddol fel dysgwyr. Mae hyn yn arbennig o amlwg ar ddechrau'r diwrnod ysgol, pan mae 'swyddi'r bore' yn darparu arferion sefydledig a gweithgareddau dysgu hynod bersonoledig i helpu disgyblion i ymdawelu'n gyflym ac ymgysylltu'n bwrpasol mewn dysgu. I lawer o ddisgyblion, mae'r lefelau ymgysylltu hyn yn gynnydd sylweddol o brofiadau addysg blaenorol lle roedd presenoldeb a pharodrwydd i ddysgu yn rhwystrau sylweddol.

Mae athrawon yn addasu dysgu yn effeithiol i ddiwallu anghenion, diddordebau a dyheadau unigol disgyblion. Maent yn rhoi esboniadau clir, yn defnyddio cymhorthion gweledol a gweithgareddau ymarferol yn dda ac yn teilwra dysgu yn briodol i helpu disgyblion i fanteisio ar y cwricwlwm. Mae cynorthwyr cymorth ystafell ddosbarth a'r tîm bugeiliol yn gweithio'n agos ochr yn ochr ag athrawon i gefnogi ymgysylltiad, rheoleiddio emosiynol a chyfranogiad disgyblion tra'n annog annibyniaeth gynyddol.

Mae llawer o staff addysgu yn defnyddio ystod o wybodaeth asesu a'u gwybodaeth fanwl am ddisgyblion i nodi mannau cychwyn, monitro cynnydd a chynllunio'r camau nesaf mewn dysgu. Yn gynyddol, mae staff yn defnyddio gwybodaeth asesu i nodi bylchau mewn dysgu a darparu ymyrraeth dargedig.

Lle mae'r addysgu yn fwyaf effeithiol, mae athrawon yn defnyddio gwybodaeth asesu yn bwrpasol, gan addasu dysgu yn llwyddiannus i ymateb i anghenion disgyblion a darparu lefelau priodol o her. Maent yn defnyddio'u dealltwriaeth o les emosiynol disgyblion, eu parodrwydd i ddysgu a'u hamgylchiadau unigol yn fedrus i bennu pryd a sut i gynyddu disgwyliadau ac ymestyn dysgu.

Er gwaethaf y cryfderau sylweddol hyn, nid yw ansawdd yr addysgu yn gyson ar draws yr ysgol. Mewn ychydig iawn o achosion, caiff yr addysgu ei or-gyfarwyddo ac mae cyflymdra'r dysgu yn rhy gyflym i ddisgyblion brosesu gwybodaeth newydd, myfyrio ar eu dysgu neu weithio'n annibynnol. Er bod y rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymgysylltu'n gadarnhaol trwy gydol y dydd, mae ychydig ohonynt yn ei chael yn anos cynnal ymgysylltiad yn ddiweddarach yn y dydd wrth iddynt baratoi ar gyfer trosglwyddiadau gartref. Er bod athrawon yn aml yn addasu gweithgareddau'n briodol i gefnogi'r newid yn anghenion a lles disgyblion, mewn ychydig o achosion, nid yw'r gweithgareddau hyn yn darparu cyfleoedd digonol i ddisgyblion adeiladu ar eu dysgu.

### **Cynnydd a deilliannau**

Mae'r ysgol yn darparu cynnig cymwysterau hyblyg a chynyddol eang sy'n cyfuno TGAU, llwybrau galwedigaethol a Lefel Mynediad. Mae bron pob un o'r disgyblion yn ennill ystod werthfawr o gymwysterau academaidd a galwedigaethol.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cryf yn datblygu eu medrau llythrennedd. Er enghraifft, mae disgyblion iau yn gwella'u rhuglder a'u hyder yn darllen trwy raglenni ymyrraeth dargedig. Mae disgyblion hŷn sy'n astudio testunau arswyd Gothig fel Frankenstein a Macbeth yn dadansoddi cymhellion cymeriadau ac yn plotio datblygiad cyn cymhwyso'r nodweddion hyn yn llwyddiannus yn eu hysgrifennu estynedig eu hunain. O ganlyniad, dros gyfnod, maent yn datblygu medrau ysgrifennu dadansoddol a chreadigol cynyddol soffistigedig.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion hefyd yn datblygu eu medrau rhifedd yn llwyddiannus, ac yn eu cymhwyso'n hyderus mewn cyd-destunau ymarferol ac ystyrlon. Mae disgyblion iau yn gwella'u dealltwriaeth o rif, dilyniannu a chyfrif, tra bod disgyblion hŷn yn datblygu dealltwriaeth fathemategol gynyddol gadarn. Mae llawer o ddisgyblion yn cymhwyso'r medrau hyn yn bwrpasol trwy weithgareddau menter. Er enghraifft, mae disgyblion sy'n cymryd rhan ym menter golchi ceir yr ysgol yn cyfrifo costau, yn trin taliadau ac yn datblygu dealltwriaeth o slipiau cyflog a rheoli incwm. Mewn gwersi technoleg, mae disgyblion yn defnyddio mesur, graddfeydd a chyfrifiadau cywir wrth ddylunio, profi a mireinio cynhyrchion gan ddefnyddio meddalwedd dylunio ac argraffyddion 3D.

Ar draws yr ysgol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cryf yn datblygu eu medrau cyfathrebu, cymdeithasol ac annibyniaeth. Maent yn dod yn gynyddol hyderus yn mynegi eu barn, cydweithio a rhyngweithio'n gadarnhaol â staff, cyfoedion ac ymwelwyr. Mae llawer ohonynt yn dod yn ddysgwyr sy'n gynyddol annibynnol ac angen llai o gymorth gan oedolyn dros gyfnod.

## **Paratoi ar gyfer y camau nesaf**

Mae arweinwyr yn gweithio'n bwrpasol gyda staff a phartneriaid allanol i sicrhau bod disgyblion yn gallu elwa ar brofiadau ystyrlon sy'n ehangu gorwelion. Mae rhaglen yrfaoedd sefydledig a hynod effeithiol sydd wedi'i strwythuro'n ofalus ar draws yr ysgol isaf a'r ysgol uchaf yn sicrhau llwybrau dilyniant unigoledig clir. Mae partneriaethau cryf â cholegau addysg bellach lleol a Gyrfa Cymru yn darparu arweiniad cyfoes a mewnbwn arbenigol ar gyfer disgyblion. Mae arweinwyr yn gwneud defnydd effeithiol o ddata i werthuso effaith a sicrhau bod cynllunio yn y dyfodol yn parhau yn ymatebol i anghenion disgyblion a chyfleoedd lleol. O ganlyniad, caiff disgyblion eu cynorthwyo'n dda i wneud penderfyniadau gwybodus am eu camau nesaf a chânt eu paratoi'n effeithiol ar gyfer addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth yn y dyfodol. Aeth bron pob un o'r disgyblion a adawodd yr ysgol yn 2025 ymlaen i'w cyrchfan ôl-16 dewisol, a sicrhau eu lleoliad yn y coleg o'u dewis, lle bo'n berthnasol.

## **Llais a chyfranogiad y disgybl**

Mae disgyblion yn trafod eu hawliau yn hyderus ac yn deall sut mae'r rhain yn cysylltu â'u lles, eu perthnasoedd a'u cyfrifoldebau. Mae bron pob un o'r disgyblion yn cyfrannu'n ystyrlon at wneud penderfyniadau trwy adolygiadau, gweithgareddau'r Cyngor Ysgol, a thrwy osod eu targedau dysgu eu hunain, mewn rhai achosion. Maent yn dweud eu bod yn teimlo'u bod yn cael eu clywed a'u gwerthfawrogi, sy'n adlewyrchu diwylliant cryf yr ysgol o barch a chynhwysiant. Mae cyfleoedd rheolaidd ar gyfer ymgynghori, fel cyfarfodydd a gwasanaethau, yn galluogi disgyblion i rannu eu barn a gweld effaith eu cyfraniadau, er enghraifft trwy ychwanegu offer chwarae yn yr awyr agored. Trwy Gyngor Ysgol gweithgar, mae disgyblion yn ymgymryd ag ystod o rolau arwain, yn cynnwys llywydd, llysgennad y Gymraeg ac arweinydd diogelu. Mae ymgysylltu â *Senedd yr Ifanc*, sef Senedd Ieuenctid Ranbarthol, yn darparu cyfleoedd i ystyried materion ehangach sy'n effeithio ar y gymuned leol.

## **Lles a chymorth**

Mae arweinwyr yn cydnabod yr heriau sylweddol o ran presenoldeb sy'n wynebu llawer o ddisgyblion ac yn rhoi strategaethau targedig ar waith i wella ymgysylltu. O ganlyniad, mae llawer o ddisgyblion y tarfwyd ar eu haddysg yn y gorffennol yn dangos gwelliannau nodedig ac yn datblygu agweddau mwy cadarnhaol at ddysgu. Fodd bynnag, at ei gilydd, mae presenoldeb yn isel o hyd, ac nid yw lleiafrif o ddisgyblion yn mynychu'n ddigon rheolaidd.

Mae dealltwriaeth gadarn o brofiadau blaenorol, cryfderau ac anghenion unigol disgyblion yn sail i ddiwylliant cryf yr ysgol sy'n ystyriol o drawma ac yn ymwybodol o awtistiaeth. O

ganlyniad, caiff dulliau therapiwtig eu hymgorffori'n gyson ar draws pob agwedd ar fywyd yr ysgol.

### **Ciplun 1: Dulliau therapiwtig yn gwella cyfranogiad mewn dysgu**

Yn Bryn Tirion Hall School, caiff proffiliau, cynlluniau cymorth ymddygiad ac argymhellion therapiwtig unigol eu rhannu'n effeithiol, gan sicrhau bod gan staff ddealltwriaeth gyson o anghenion emosiynol, cyfathrebu a synhwyrdd disgyblion. O ganlyniad, mae staff yn cymhwyso dulliau cyson ar draws pob agwedd ar fywyd ysgol ac yn defnyddio strategaethau rhagweithiol yn llwyddiannus i gefnogi rheoleiddio emosiynol, ymgysylltu a chyfranogiad mewn dysgu.

Mae darpariaeth anogaeth yr ysgol yn cryfhau'r dull hwn trwy ddarparu cymorth targedig ar gyfer disgyblion sydd angen cymorth ychwanegol i ddatblygu rheoleiddio emosiynol, hyder a pharodrwydd i ddysgu. O ganlyniad, mae llawer o ddisgyblion sydd wedi'i chael yn anodd ymgysylltu ag addysg yn y gorffennol yn dod yn fwy hyderus, gwydn ac ymddiried mewn oedolion, sy'n eu galluogi i ymgysylltu'n fwy llwyddiannus â dysgu a bywyd yr ysgol.

Mae dealltwriaeth gref o ymddygiad fel cyfathrebu yn sail i gymorth lles, gyda staff yn canolbwyntio ar nodi a mynd i'r afael ag anghenion sylfaenol. Mae dadansoddiad manwl o ymddygiad, diogelu a data presenoldeb yn galluogi arweinwyr i nodi patrymau a rhoi strategaethau cymorth rhagweithiol, hynod bersonoledig, ar waith.

Mae ymagwedd yr ysgol at hyrwyddo ymddygiad cadarnhaol a systemau gwobrwy fel 'Mega Moments' ac 'ACE Olympics' yn cael effaith amlwg ar ymgysylltu â dysgu. Mae disgyblion yn gwerthfawrogi'r gwobrau hyn sy'n cael eu hymgorffori'n dda ar draws bywyd yr ysgol.

Ceir diwylliant diogelu cryf ar draws yr ysgol. Mae staff yn deall eu cyfrifoldebau'n dda ac yn ymateb yn hyderus i bryderon. Mae arweinwyr yn gweithio'n effeithiol gydag ystod eang o asiantaethau i sicrhau bod disgyblion a'u teuluoedd yn cael cymorth cydlynus ac amserol. Mae gwaith amlasiantaethol effeithiol, gan gynnwys gyda gwasanaethau iechyd meddwl, yn helpu mynd i'r afael â rhwystrau rhag dysgu ac yn sicrhau bod disgyblion yn elwa ar gymorth wedi'i integreiddio'n dda sy'n diwallu eu hanghenion.

### **Arwain a gwella**

Mae perchnogion yr ysgol wedi pontio'n llwyddiannus o rolau pennaeth ac is-bennaeth i ddarparu cymorth strategol fel perchnogion yr ysgol. Dros sawl blwyddyn, maent wedi meithrin arweinwyr oddi mewn i'r sefydliad yn bwrpasol, gan alluogi'r tîm arweinyddiaeth presennol i ddatblygu'r medrau a'r hyder sydd eu hangen i arwain yr ysgol yn annibynnol.

Mae'r perchnogion yn darparu cymorth a her effeithiol tra'n cynnal ffocws strategol clir. Trwy gyfathrebu, ymweliadau ac arsylwadau gwersi rheolaidd, a chraffu ar wybodaeth am



berfformiad yn rheolaidd, maent yn cynnal goruchwyliaeth gref heb fod yn rhan o weithrediadau o ddydd i ddydd. Mae eu hymrwymiad i fyfyrion, arloesi a gwelliant parhaus yn helpu sicrhau bod yr ysgol yn parhau i esblygu i ymateb i anghenion disgyblion.

Mae dealltwriaeth gref y perchnogion o ddisgyblion yr ysgol, ochr yn ochr â'u hymrwymiad i baratoi pobl ifanc ar gyfer byd oedolaeth, yn sicrhau bod penderfyniadau strategol yn parhau i ganolbwyntio'n gadarn ar wella cyfleoedd disgyblion mewn bywyd. Maent yn gweithio'n effeithiol gydag arweinwyr i sicrhau bod yr adnoddau, y capasiti staffio a'r cyfleusterau sydd eu hangen i gynnal amgylcheddau dysgu a gwaith o ansawdd uchel ar gyfer disgyblion a staff.

Mae gan arweinwyr ddealltwriaeth gref o gryfderau'r ysgol a'i meysydd i'w datblygu ac maent yn defnyddio ystod eang o dystiolaeth uniongyrchol i lywio blaenoriaethau gwella. Mae staff ar bob lefel yn cyfrannu at weithgareddau hunanwerthuso ac yn rhannu eu gwybodaeth a'u profiadau i werthuso effaith eu gwaith.

Mae arweinwyr yn defnyddio gwybodaeth am gyflawniad a chynnydd disgyblion yn effeithiol i gefnogi gwelliant ac maent wedi cryfhau trefniadau asesu i ddarparu gwybodaeth fwy trylwyr ar gyfer addysgu, ymyrraeth a gosod targedau. Maent yn gwerthuso effeithiolrwydd systemau asesu ac olrhain medrau yn ystyriol ac yn cymryd camau priodol i symleiddio prosesau, gwella cysondeb a chryfhau olrhain cynnydd disgyblion dros gyfnod. Mae'r dull myfyriol hwn yn dangos ymrwymiad arweinwyr i welliant parhaus.

## **Dysgu a datblygiad proffesiynol**

Caiff dysgu proffesiynol ei gynllunio'n strategol i ymateb i flaenoriaethau'r ysgol ac anghenion esblygol disgyblion. Mae'r dull hwn â ffocws yn cyfrannu'n dda at arfer well a deilliannau gwell ar gyfer disgyblion.

### **Ciplun: Meithrin arbenigedd i ddiwallu anghenion cymhleth disgyblion**

Mae'r ysgol wedi datblygu ymagwedd hynod ymatebol at ddysgu proffesiynol sy'n cael ei ffurfio'n uniongyrchol gan anghenion esblygol ei disgyblion. Mae arbenigwyr mewnol, yn cynnwys seicolegydd addysg a therapydd lleferydd ac iaith, yn chwarae rolau allweddol mewn datblygu arbenigedd staff mewn meysydd fel cyfathrebu, rheoleiddio emosiynol, cymorth ymddygiad ac arfer sy'n ystyriol o drawma. O ganlyniad, mae staff yn cymhwyso dulliau cyson sy'n cefnogi cyfranogiad, lles a chynnydd disgyblion.

Mae alinio agos rhwng prosesau hunanwerthuso, cynllunio gwelliant yr ysgol, adolygu perfformiad a dysgu proffesiynol yn sicrhau bod blaenoriaethau gwella yn troi'n dargedau

adrannol ac unigol. Mae hyn yn creu cysylltiadau clir rhwng blaenoriaethau ysgol gyfan, gweithgareddau dysgu proffesiynol a chyfrifoldebau unigol.

Mae trefniadau adolygu perfformiad yn cefnogi atebolrwydd a thwf proffesiynol yn effeithiol. Mae staff yn cymryd rhan mewn trafodaethau rheolaidd sy'n canolbwyntio ar effaith, deilliannau a datblygiad yn y dyfodol. Caiff amcanion datblygu eu haddasu'n briodol i wahanol rolau ac maent yn cynnwys meini prawf llwyddiant a threfniadau monitro clir. O ganlyniad, mae gan staff ddealltwriaeth gref iawn o sut mae eu cyfrifoldebau unigol yn cyfrannu at welliant ysgol gyfan a deilliannau gwell ar gyfer disgyblion.

### **Ymgysylltu â rhieni a gofalwyr**

Mae'r ysgol yn rhoi pwyslais cryf ar bartneriaethau effeithiol â rhieni a gofalwyr. Mae cyfathrebu effeithiol a chymorth personoledig yn sicrhau bod teuluoedd yn cael eu cynnwys yn briodol mewn gwneud penderfyniadau ac yn deall sut gallant weithio ochr yn ochr â'r ysgol i gefnogi datblygiad eu plant. O ganlyniad, mae'r dull cydweithredol hwn yn cyfrannu'n gadarnhaol at les a phresenoldeb disgyblion, a'u hymgysylltiad â dysgu.

Mae bron pob un o'r rhieni a'r gofalwyr yn canmol yr ysgol a'r effaith gadarnhaol a gaiff ar fywydau eu plant. Mae llawer ohonynt yn disgrifio bod y ddarpariaeth yn drawsnewidiol, yn helpu eu plant i ailymgysylltu ag addysg, gwella'u lles a llwyddo pan mae lleoliadau blaenorol wedi bod yn aflwyddiannus. Mae bron pob un o'r rhieni a'r gofalwyr yn teimlo bod yr ysgol yn gwrando arnynt a'u bod yn cael eu gwerthfawrogi. Dywed ychydig ohonynt fod eu plant yn llwyddo mewn dysgu am y tro cyntaf.

## **Cydymffurfio â'r rheoliadau ar gyfer cofrestru**

Caiff arolygiadau ysgolion annibynnol eu llywodraethu gan Ddeddf Addysg 2002 a rheoliadau cysylltiedig: Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2024. Mae'r rheoliadau hyn yn ei gwneud yn ofynnol i ysgol annibynnol fodloni safon briodol yn y meysydd canlynol:

### **Ansawdd yr addysg a ddarperir gan yr ysgol**

Ar sail yr arolygiad hwn, nid oes tystiolaeth nad yw'r ysgol yn cydymffurfio â'r safon hon.

### **Datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion**

Ar sail yr arolygiad hwn, nid oes tystiolaeth nad yw'r ysgol yn cydymffurfio â'r safon hon.

### **Lles, iechyd a diogelwch disgyblion**

Ar sail yr arolygiad hwn, nid oes tystiolaeth nad yw'r ysgol yn cydymffurfio â'r safon hon.

### **Addasrwydd perchnogion a staff**

Ar sail yr arolygiad hwn, nid oes tystiolaeth nad yw'r ysgol yn cydymffurfio â'r safon hon.

### **Eiddo a llety preswyl mewn ysgolion**

Ar sail yr arolygiad hwn, nid oes tystiolaeth nad yw'r ysgol yn cydymffurfio â'r safon hon.

### **Darparu gwybodaeth**

Ar sail yr arolygiad hwn, nid oes tystiolaeth nad yw'r ysgol yn cydymffurfio â'r safon hon.

### **Y modd yr eir i'r afael â chwynion**

Ar sail yr arolygiad hwn, nid oes tystiolaeth nad yw'r ysgol yn cydymffurfio â'r safon hon.

## Diogelu

Nid yw trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn peri pryder.

## Argymhellion

Rydym wedi gwneud tri argymhelliad i helpu'r ysgol i barhau i wella, sef:

- A1 Parhau i gryfhau strategaethau i wella presenoldeb a chynorthwyo disgyblion i ymgysylltu'n llwyddiannus ag addysg
- A2 Cryfhau cysondeb yr addysgu trwy sicrhau bod gweithgareddau dysgu yn cynnal her a momentwm priodol trwy gydol gwersi, tra'n gweddu'n dda i anghenion disgyblion o hyd
- A3 Parhau i fireinio trefniadau'r ysgol ar gyfer asesu ac olrhain medrau, a chryfhau dealltwriaeth disgyblion o'u camau nesaf

## Beth sy'n digwydd nesaf

Mae Estyn yn cynghori'r perchennog i ddiwygio'i gynllun datblygu presennol i ddangos pa gamau y mae'r ysgol yn bwriadu eu cymryd i ymateb i'r argymhellion. Hefyd, byddai'n ddoeth dosbarthu'r cynllun hwn, neu grynodedb ohono, i'r holl rieni / gofalmwyr yn yr ysgol.

## **Sail dystiolaeth yr adroddiad**

Cyn yr arolygiad, mae arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni / gofalmwyr a'r holiadur i ddisgyblion, ac yn ystyried barn athrawon a'r staff cymorth trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, mae arolygwyr fel arfer:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni / gofalmwyr i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr / perchnogion, arweinwyr ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco
- yn ymweld â gwersi ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi dysgu'r disgyblion
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda roedd yr ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol (lle bo'n briodol), gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, mae Estyn:

- yn adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Atodiad 1: Niferoedd – symiau a chyfrannau

Mae'r adroddiad yn cyfeirio at wahanol symiau a chyfrannau, e.e. '*y rhan fwyaf o ddisgyblion...*' neu '*ychydig iawn o ddisgyblion...*'. Rydym yn defnyddio'r termau hyn i ddisgrifio symiau a chyfrannau fel yr amlinellir yn y tabl isod:

|                |                                 |
|----------------|---------------------------------|
| bron pob un =  | gydag ychydig iawn o eithriadau |
| y rhan fwyaf = | 90% neu fwy                     |
| llawer =       | 70% neu fwy                     |
| mwyafrif =     | dros 60%                        |
| hanner =       | 50%                             |
| tua hanner =   | yn agos at 50%                  |
| lleiafrif =    | islaw 40%                       |
| ychydig =      | islaw 20%                       |
| ychydig iawn = | llai na 10%                     |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn  
([www.estyn.llyw.cymru](http://www.estyn.llyw.cymru))

Lluniwyd yr adroddiad yn unol ag adran 163 Deddf Addysg 2002. Prif ddiben arolygu o dan yr adran hon yw adrodd ar gydymffurfio â Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2024. Mewn ysgolion sy'n darparu addysg feithrin nas cynhelir, mae'r adroddiad hwn hefyd yn bodloni gofynion Atodlen 26 Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau

Estyn

Llys Angor, Heol Keen

Caerdydd

CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at [cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru](mailto:cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru)

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan:  
<http://www.estyn.llyw.cymru/>

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

© Hawlfraint y Goron 2026: Gellir aildddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl: (a) mewn unrhyw fformat neu gyfrwng; a (b) gellir ei gyfieithu gan neu ar ran darparwr addysg a/neu hyfforddiant y mae'r adroddiad hwn yn ymwneud ag ef i unrhyw iaith, ar yr amod y caiff ei aildddefnyddio ac/neu ei gyfieithu'n gywir ym mhob achos ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Ym mhob achos, rhaid cydnabod y deunydd (gan gynnwys unrhyw gyfieithiad) fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 03/08/2026